
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

www.cymru.gov.uk

Rhoi **rhan 7** o
Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
ar waith



**Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc**

## Mae gennym ni wasanaethau cymdeithasol da yng Nghymru ond mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud nhw'n well fyth.

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn helpu teuluoedd ac unigolion pan mae angen help arnyn nhw.

Maen nhw hefyd yn helpu plant a phobl ifanc:

- pan maen nhw mewn perygl o gael eu niweidio;
- pan mae ganddyn nhw broblemau teuluol;
- pan mae ganddyn nhw anabledd;
- pan maen nhw mewn helynt â'r gyfraith neu'r heddlu;
- pan maen nhw'n derbyn gofal; neu
- pan nad yw eu teuluoedd yn gofalu amdanyn nhw fel y dylen nhw wneud.

## Ffordd newydd o wneud pethau

Yn 2014, fe wnaethom ni ddeddf newydd o'r enw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).**

*(Mae Deddf yn gwneud newidiadau i'r gyfraith.)*

Mae'r Ddeddf newydd yma'n manylu ar bopeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol (cynghorau) eu gwneud i helpu pobl yn eu hardal nhw.

Mae yna 11 rhan i'r Ddeddf, yn rhoi sylw i bopeth y mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu gwneud, ac mae'r llyfryn yma'n edrych ar ran 7.

I ddarllen y Ddeddf newydd gyfan - cliciwch yma:



## Paratoi

**Bydd pawb sy’n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn newid eu ffordd o weithio a byddan nhw’n defnyddio’r Ddeddf newydd yma o fis Ebrill 2016 ymlaen.**

Felly rydyn ni wrthi’n creu trefniadau (camau) newydd fel bod pawb yn deall beth y mae’r Ddeddf newydd yn ei olygu a beth y mae angen iddyn nhw ei wneud.


Bydd y trefniadau’n cynnwys:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei hun
- Rheolau (rheoliadau) newydd y mae modd eu gwneud oherwydd y Ddeddf
- Canllawiau statudol i bawb sy’n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol eu dilyn
- Canllawiau statudol ar ddiogelu.

**Mae’r llyfryn yma’n dweud wrthych chi am y canllawiau statudol a’r rheolau newydd rydyn ni wedi’u datblygu ar gyfer Rhan 7 y Ddeddf.**

**Rydyn ni wedi holi rhai pobl sy’n gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol yn barod ynglŷn â’r rhain, ond rydyn ni eisiau gwybod beth yw’ch barn chi.**

**Wedyn, byddwn ni’n anfon y canllawiau statudol a’r rheoliadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru iddyn nhw gytuno arnyn nhw mewn pryd i bawb ddechrau gweithio’n unol â nhw o fis Ebrill 2016 ymlaen.**



## Beth y mae Rhan 7 yn rhoi sylw iddo?

Mae Rhan 7 y Ddeddf yn edrych ar gadw pobl yn ddiogel rhag cael eu niweidio a'u cam-drin. **Diogelu yw ein henw ar hyn.**

Mae gennym ni drefniadau ar waith yn barod o ran sut i gadw plant, pobl ifanc ac oedolion yn ddiogel; ond mae'r Ddeddf newydd yn gwneud y rhain yn gryfach ac yn cyflwyno ffyrdd newydd i helpu oedolion sydd mewn risg.

**Mae yna bum maes yr hoffem ni edrych arnyn nhw yn y rhan yma o'r Ddeddf:**

### Diogelu

**— cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.**

### Diogelu ar gyfer oedolion

**— eu cadw nhw'n ddiogel.**

### Gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolyn

**— camu i mewn lle bo angen.**

### Byrddau diogelu

**— cydweithio i gadw pobl yn ddiogel.**

### Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**— rhoi cyngor i wneud Cymru'n fwy diogel.**

**Diogelu — cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.**

Mae'r Ddeddf newydd yn golygu bod yn rhaid i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ddweud wrth rywun os ydyn nhw'n meddwl bod plentyn neu berson ifanc mewn risg o niwed.

Bydd y canllawiau statudol yn gwneud yn siŵr bod pawb mewn awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, ysgolion a lleoedd eraill yn gwybod pwy i siarad â nhw pan maen nhw'n pryderu nad yw plentyn yn ddiogel.



## Diogelu ar gyfer oedolion
### — eu cadw nhw’n ddiogel.

Mae’r Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i bawb sy’n gweithio gydag oedolion hefyd roi gwybod i’r Byrddau Diogelu os ydyn nhw’n meddwl bod oedolyn mewn risg o niwed.

Bydd hyn yn digwydd yn yr un ffordd ag ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae awdurdod lleol yn gallu rhannu gwybodaeth ag awdurdod lleol arall i wneud yn siŵr bod oedolion yn cael eu cadw’n ddiogel.

## Gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolyn
### — camu i mewn lle bo angen.

Mae’r Ddeddf yn rhoi pŵer cyfreithiol newydd sy’n golygu bod gweithwyr proffesiynol yn gallu cael ‘gorchymyn amddiffyn a chynorthwyo oedolyn’ i fynd i mewn i gartref rhywun neu rywle arall os ydyn nhw’n meddwl bod yr oedolyn sy’n byw yno mewn risg o niwed a bod angen cymorth arno neu arni.

## Byrddau diogelu — cydweithio i gadw pobl yn ddiogel.

Mae’r Ddeddf yn golygu ein bod ni’n gallu sefydlu byrddau diogelu newydd. Bydd y rhain yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a byddan nhw’n disodli’r byrddau diogelu sydd ym mhob ardal awdurdod lleol ar hyn o bryd.

Fe fydd yna chwe Bwrdd Diogelu Plant newydd, a chwe Bwrdd Diogelu Oedolion a fydd yn gweithio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru.

Bydd y canllawiau statudol yn manylu ar sut byddan nhw’n cyflawni eu canlyniadau a sut byddan nhw’n cael eu hariannu.



## Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

**— rhoi cyngor i wneud Cymru'n fwy diogel.**

Fe fydd Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer Cymru.

Gweinidogion Cymru fydd yn penodi'r Bwrdd Cenedlaethol yma a fydd yn rhoi cyngor a chymorth i fyrddau diogelu plant a byrddau diogelu oedolion.

Byddan nhw'n rhannu gwybodaeth â Gweinidogion Cymru fel eu bod nhw'n gallu gweld beth y mae angen iddyn nhw ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau diogelu'n well fyth yn y dyfodol.

## Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fyddech chi cystal ag ateb y cwestiynau isod ac anfon eich atebion i:

sswbimplementation@cymru.gsi.gov.uk

neu:

Cangen Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**erbyn 2 Chwefror 2015**



## Cwestiynau:

Ydych chi'n meddwl bod y Canllawiau Statudol a'r rheolau newydd ni wedi'u datblygu ar gyfer Rhan 7 y Ddeddf yn syniad da?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

Ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi gadael rhywbeth pwysig allan rydyn wrth wneud y cynlluniau yma?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

Sylw:

